



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

DYDDIAD 23 MAWRTH 2022

PWNC

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo diweddariad i'r:

- **Polisi Cyfathrebu**
- **Matrics Llywodraethu**

RHESYMAU:

Cymeradwywyd y Matrics Polisi Cyfathrebu a Llywodraethu presennol gan y CBLI ym mis Rhagfyr 2019. Mae ail adolygiad blynyddol o'r polisïau hyn wedi'i gynnal ac mae angen i'r CBLI gymeradwyo'r dogfennau wedi'u diweddarau.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol
Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-
bost:CMoore@carmarthenshire.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 23 MAWRTH 2022

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun gaiff eu hadolygu yn flynyddol. Y chwarter hwn, mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisi Cyfathrebu a'r Matrics Llywodraethu.

Cymeradwywyd y Polisi Cyfathrebu yn ffurfiol gan y CBLI ym mis Rhagfyr 2019 ac fe'i hadolygwyd a'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2021. Yn dilyn yr adolygiad eleni, mae'r polisi wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu newid enw MHCLG o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i'r Adran Lefelu, Tai a Chymunedau (DLUHC). Mae'r polisi hefyd wedi'i ddiweddarau i gynnwys cyfarfodydd Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn (pwynt 11.3) fel sianel i gyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol ac Adroddiad Blynyddol PPC (pwynt 15.4) fel modd o gyfathrebu'n allanol. Mae amllder adolygiad ffurfiol y polisi wedi'i ddiwygio i bob dwy flynedd, mae geiriad y polisi (pwynt 6) wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.

Cymeradwywyd y Matrics Llywodraethu gan y CBLI ym mis Rhagfyr 2019 ac fe'i hadolygwyd a'i ddiweddarau ym mis Rhagfyr 2020. Yn dilyn y newidiadau diweddar i'r Cytundeb Rhyng-awdurdod, mae'r matrics hwn wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu rôl y dyrannwr a hefyd i gynnwys y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â chyfleoedd buddsoddi wedi'i bwlio cyfunol.

Os yw'r polisiâu yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu diweddarau ar wefan y Bartneriaeth.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

YDY

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi Mae'r Polisi Cyfathrebu a'r Matrics Llywodraethu yn ddogfennau ffurfiol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN